Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 21 Medi 2021 am 10:00am (Cyfarfod ar Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, APCAP (Cadeirydd) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-Gadeirydd) |
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, CSP |
| Anna Bird | Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol, BIP Hywel Dda (gadawodd am 11:50am) |
| Y Cyngh. Cris Tomos | Cyngor Sir Penfro |
| Darren Thomas | Pennaeth Seilwaith, CSP |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Dr Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Yr UA Anthony Evans | Heddlu Dyfed Powys |
| Alyson Phillips | Rheolwr Partneriaeth Sir Benfro, Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Kevin Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, GTACGC |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gwasanaeth Morol, Gweithrediadau, CNC |
| Martyn Palfreman | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol, PGGC |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sirol, Sir Benfro, BIP Hywel Dda |
| Y Cyngh. Elwyn Williams | Is-Gadeirydd Awdurdod Tân CGC |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys, GPaChEM |
| Anna Malloy | Porthladd Aberdaugleddau |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Abi Marriot | PLANED |
| Ant Rogers | Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, CSP (gadawodd am 11:35am) |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Carys Huntly | Cydlynydd Asesiad Llesiant Rhanbarthol |
| Ieuan Rees | Hyfforddai Graddedig, CSP |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Jonathan Griffiths | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, CSP |
| Ros Jervis | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, BIPHDd |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Philip Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, BIP Hywel Dda |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHaTh Dyfed Powys |
| Maria Battle | Cadeirydd, BIP Hywel Dda |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:05am

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Fe wnaeth TJ groesawu Will Bramble, Prif Weithredwr newydd Cyngor Sir Penfro, a Claire Germain, cynrychiolydd newydd Llywodraeth Cymru, i'w cyfarfod BGC cyntaf.

Cafwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Log Gweithredu

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021 yn gywir.

Log Gweithredu

Darparodd SPJ ddiweddariad mewn perthynas â thlodi ac ymgeisio i dreialu incwm sylfaenol cyffredinol a godwyd ganddo yn y cyfarfod diwethaf.

Nododd y byddai Hysbysiad o Gynnig mewn perthynas â thlodi plant yn cael ei drafod gan Gabinet CSP ar 4 Hydref a bod y papur drafft yn crybwyll sefydlu nifer o strwythurau i fynd i'r afael â materion ehangach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid y BGC yn ogystal ag ystod o sefydliadau eraill gan gynnwys CAB. Gan gofio canfyddiadau adroddiad y llynedd a oedd yn nodi mai Cyngor Sir Benfro oedd y lle gwaethaf yn y DU o ran tlodi plant, awgrymodd SPJ ei fod yn darparu diweddariad ar drafodaethau yng nghyfarfod y Cabinet yng nghyfarfod nesaf y BGC ar 23 Tachwedd gyda golwg ar ystyried sut y gallai'r BGC gydweithio ar y mater. Cynigiodd CG wneud gwaith dilynol o ran y cynnydd gyda chynigion Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

**LR ar gyfer yr agenda**

**CG**

Roedd yr holl gamau gweithredu eraill wedi cael eu cwblhau neu byddent yn cael sylw fel rhan o'r agenda.

## 3. COP26 – Diweddariad ar Ddigwyddiad Rhanbarthol De Orllewin Cymru

Fe wnaeth DT amlinellu cefndir COP26 ac ymwneud Sir Benfro â chynnal digwyddiad rhanbarthol ar gyfer rhanbarth DO Cymru (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, CNP ac Abertawe) ar ddydd Llun 8 Tachwedd 2021 a fyddai'n canolbwyntio ar addasu a chydnerthedd.

Nododd ei fod yn disgwyl adborth gan Lywodraeth Cymru ac mai gwaith ar y gweill oedd y digwyddiad i raddau helaeth. Fodd bynnag, byddai'n gyfle da i amlygu rôl Sir Benfro o ran addasu a chydnerthedd mewn cynhadledd ranbarthol bwysig, gan ystyried adroddiadau diweddar ar y BBC ar waith a oedd i fod i ddigwydd yn Niwgwl a gwaith yr Awdurdod Porthladd i ddatblygu tanwydd hydrogen. Dywedodd DT y byddai Llywodraeth Cymru'n penodi trefnydd digwyddiad ond mai ei nod ef oedd annog cymaint â phosibl o bartneriaid y BGC i fod yn rhan o'r digwyddiad, gan y byddai cyfle i ddangos bod y newid yn yr hinsawdd yn fater trawsbynciol lle mae gan bawb rôl o ran gweithio tuag at ddatrysiad.

Byddai DT yn darparu'r sleidiau a ddefnyddiwyd fel rhan o'i ddiweddariad i gael eu cylchredeg ac yn darparu diweddariadau pellach a gwybodaeth am y digwyddiad fel y bo'n briodol. **DT**

## 4. Asesiad Llesiant

Darparodd NE drosolwg o’r adroddiad a gafodd ei gylchredeg i bartneriaid a diweddariad ar y cynnydd o ran gwneud yr asesiad.

Hyd yma roedd 382 o ymatebion i’r arolwg wedi bod yn Sir Gaerfyrddin, 263 yng Ngheredigion a 189 yn Sir Benfro, felly gofynnodd i bartneriaid barhau i hyrwyddo’r arolwg ymhlith eu rhanddeiliaid ac yn enwedig aelodau o staff mewnol. Roedd Grŵp Ymgysylltu’r BGC yn parhau i gydweithio ar gynllunio sesiynau ymgysylltu, gan gynnwys diwygio’r deunyddiau ymgysylltu i gefnogi’r ymwneud gan grwpiau penodol, a dogfen fapio a oedd wedi cael ei llunio ac a oedd yn darparu manylion pa sefydliadau oedd yn bwriadu cynnal digwyddiadau ymgysylltu. Gofynnwyd i’r partneriaid fwrw golwg ar y ddogfen hon i ganfod a oedd unrhyw fylchau neu grwpiau penodol nad oeddent wedi’u rhestru y dylid eu targedu fel rhan o’r broses ymgysylltu. **PAWB**

Wedyn darparodd NE ddiweddariad ar waith y grŵp data rhanbarthol ac ar Gorwel, y system wybodaeth ddigidol a ddatblygwyd gan WriteMedia ar ran y rhanbarth. Nododd fod rhai elfennau o’r system bellach yn fyw a bod eraill yn dal yn y cam profi; felly byddai’r Asesiad Llesiant yn cael ei ddrafftio heb ddefnyddio’r system newydd ond byddai’n rhan o waith parhaus. Byddai digwyddiad rhwng tair Sir yn cael ei drefnu cyn gynted â bod y system yn fyw i ddangos y system i aelodau’r BGC.

Nododd CH ei bod hi wedi gwneud ymarfer mapio ar gyfer pob sir i geisio paru ymatebwyr â demograffeg nodweddion gwarchodedig a nododd, o fewn Sir Benfro, fod yr ymatebion yn isel hyd yma ar gyfer hil; crefydd; dynion (mae 75% o’r ymatebwyr hyd yma wedi bod yn fenywod); a phobl ifanc. Nododd LR fod nifer o ddigwyddiadau gyda phobl ifanc i fod i gael eu cynnal dros yr wythnosau nesaf a fyddai, gobeithio, yn gwella argaeledd data yn y maes hwn.

Cyfeiriodd MP at y gwaith rhanbarthol a oedd yn cael ei wneud i gysoni’r Asesiad Llesiant â’r Asesiad o’r Boblogaeth a oedd yn cael ei wneud gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a diolchodd i gydweithwyr am eu help i gydgysylltu’r ddau ddarn yma o waith.

Gofynnodd SPJ a fyddai data islaw lefel siroedd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o’r asesiad. Eglurodd CH y byddai hi’n drafftio cyfres o benawdau rhanbarthol lle'r oedd agweddau a oedd yn amlwg yn gyffredin rhwng siroedd, ond y byddai hyn wedyn yn cael ei ehangu i lawr i ardaloedd lleol o fewn siroedd lle’r oedd data ar gael. Nododd NE y byddai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr asesiad hwn ac y byddai’r data mwyaf priodol sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio.

Gofynnodd SL am y posibilrwydd o estyniad ar ddyddiad cau’r arolwg; fodd bynnag, nododd NE y gallai hyn fod yn anodd gan mai Sir Gaerfyrddin oedd yn lletya’r arolwg ar ran y rhanbarth. Fodd bynnag, cytunodd i godi’r mater gyda chydweithwyr rhanbarthol yn y cyfarfod nesaf oedd wedi’i drefnu ar 30 Medi. **NE** Cododd SL y cwestiwn ynghylch rhoi estyniad ar y cyfnod ymgysylltu hefyd; fodd bynnag, roedd mis Mawrth 2022 wedi’i bennu fel terfyn amser i gynhyrchu dogfen derfynol oherwydd Etholiadau Llywodraeth Leol a oedd yn mynd i gael eu cynnal ym mis Mai 2022 a materion sy’n deillio o hynny mewn perthynas â’r cyfnod cyn yr etholiad. Nododd NE hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu fersiwn ddrafft o’r adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei defnyddio wrth ysgrifennu eu hasesiadau. Nid oedd fersiwn derfynol yr adroddiad yn mynd i gael ei chyhoeddi tan fis Rhagfyr 2021, serch hynny, ac felly roedd y Llywodraeth wedi gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus beidio â rhannu’r ddogfen ddrafft.

## 5. Diweddariadau ar gynnydd gyda Chynlluniau Gweithredu

Adeiladu cysylltiadau â grwpiau perthnasol i gefnogi cyflwyno'r ffrydiau gwaith â thema Cymunedau

Dywedodd SL fod Sir Benfro'n ennill enw iddi ei hun ledled Cymru am waith gyda chymunedau mewn perthynas ag iechyd, gofal cymdeithasol, llesiant ac atal. Roedd Gyda'n Gilydd dros Newid, y grŵp sy'n cynnwys Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, PLANED a Gofal Solfach yn parhau i ddatblygu eu gwaith mewn perthynas â chymunedau dyfeisgar ac roeddent yn chwilio am ffyrdd gwahanol o gyflawni ymchwil mewn cymunedau yn seiliedig ar ddysgu trwy brofiadau yn seiliedig ar weithredu. Cynigiodd SL i ddarparu diweddariad manylach ar y gwaith yn y cyfarfod nesaf. **LR ar gyfer yr agenda**

Adeiladu cysylltiadau cryfach â Chynghorau Tref a Chymuned – Canfyddiadau'r Arolwg o'r Ymateb Cymunedol i COVID yn Sir Benfro

Darparodd IT ac AM drosolwg o ganfyddiadau'r Arolwg gan PLANED o'r Ymateb Cymunedol i COVID yn Sir Benfro, gan gynnwys trosolwg o'r broses a'r lleoliadau a dargedwyd ar gyfer ymgysylltu. Dywedodd IT eu bod wedi profi heriau tebyg o ran ymgysylltu â'r arolwg i'r rhai a brofwyd gyda'r arolwg ar gyfer yr Asesiad Llesiant, gyda 300 o ymatebwyr dros 6 wythnos.

Fforwm Cyfalaf Naturiol Cynaliadwy Sir Benfro

Nid oedd diweddariad pellach yn ychwanegol at y diweddariad ysgrifenedig a oedd wedi cael ei gylchredeg.

Datblygu dull a rennir ar gyfer llesiant staff ar draws sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhoddodd BW drosolwg o'r digwyddiad gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mehefin, a oedd wedi cael ei drefnu fel y gallai sefydliadau'r BGC ddod ynghyd i rannu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau o ran sut y maent yn cefnogi llesiant staff sy'n gweithio gartref, sydd ar Ffyrlo neu sy'n wynebu risg o golli eu swydd. Hefyd, trafodwyd meddyliau ynglŷn â sut ellid cefnogi staff newydd yn y dyfodol, gan gynnwys cymorth rhithwir gyda chyflogaeth.

Nododd BW mai'r hyn a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdy oedd yr angen i fwrw golwg ar arferion gweithio yn y dyfodol ac i sicrhau bod ffocws ar wneud llesiant yn ganolog i fodelau gweithio yn y dyfodol. Ychwanegodd AP fod trafodaethau yn y gweithdy wedi dangos sut yr oedd sefydliadau wedi gallu cefnogi staff mewn gwahanol ffyrdd yn ystod amser a oedd yn gryn her ac yn anodd. Roedd adroddiad wedi cael ei lunio yn dilyn y gweithdy ac roedd hwn wedi cael ei gylchredeg fel rhan o becyn yr agenda. Yn awr bod y gweithdy wedi cael ei gynnal roedd y prosiect hwn bellach wedi'i gwblhau.

Grŵp y BGC ar y Newid yn yr Hinsawdd

Rhoddodd AW drosolwg byr o'r cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y BGC.

Roedd Cylch Gorchwyl wedi cael ei gytuno gyda rhai mân ddiwygiadau a phenodwyd AW yn Gadeirydd gyda DT fel Is-Gadeirydd. Cytunwyd fel rhan o'r Cylch Gorchwyl y byddai cyfarfodydd yn digwydd cyn cyfarfodydd y BGC yn y dyfodol ac y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn cyfarfodydd ac na fyddent yn cael eu trosglwyddo i'r BGC llawn; felly roedd yn bwysig bod yr holl bartneriaid statudol yn cael eu cynrychioli ar lefel uwch swyddogion.

Roedd canlyniad y cynnig i'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn dal yn anhysbys ond roedd partneriaid wedi cytuno i weithio ar Gynllun B pe na bai penderfyniad yn dod i law erbyn diwedd y mis. Cydnabuwyd y byddai'n rhaid i'r grŵp symud ymlaen heb y penderfyniad hwn er mwyn gallu gwneud cynnydd.

*Prosiect newydd* – Gwaith gyda chydweithwyr o Bartneriaeth Natur Sir Benfro i gydlynu ymateb gan y BGC i'r argyfwng natur

Cyflwynodd AR ei gais am gefnogaeth y BGC gan ychwanegu peth cyd-destun pellach at yr un a gafodd ei gylchredeg yn ei adroddiad, yn arbennig o ran ymdrechion aflwyddiannus parhaus i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a sut y gallai risgiau amgylcheddol colli cynefinoedd gael effaith ar yr economi. Rhoddodd enghreifftiau hefyd o ddau brosiect yr oedd wedi bod yn rhan ohonynt gyda phartneriaid y BGC, y cyntaf yn cynnwys plannu 1300 o goed y flwyddyn ar dir CSP mewn partneriaeth gyda BIP Hywel Dda i gynrychioli babanod a enir yn Sir Benfro bob blwyddyn a'r ail yn cynnwys defnyddio ysgol achub newydd y Gwasanaeth Tân i osod blychau nythu ar gyfer gwenoliaid ar adeilad Ysbyty Llwyn Helyg.

Yn hytrach na sefydlu grŵp newydd i arwain ymateb Sir Benfro i'r argyfwng natur, cynigiodd AR fod BGC Sir Benfro'n rhoi mandad i fecanwaith cyflawni presennol Partneriaeth Natur Sir Benfro arwain yr ymateb. Eglurodd mai'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro yw'r prif fodd i gydlynu camau gweithredu'n lleol. Mae Rhan 1 yn nodi'r cyd-destun strategol ac yn nodi themâu gweithredu sy'n gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, a bydd Rhan 2 ar y llaw arall yn cynnwys casgliad o gynlluniau gweithredu ar themâu penodol, y bydd un ohonynt ar gyfer cyrff cyhoeddus, a dyma ble'r oedd angen cefnogaeth y BGC. Roedd llawer o bartneriaid y BGC eisoes yn cael eu cynrychioli ar y Bartneriaeth ond gofynnodd AR am gynrychiolwyr a enwir o bob sefydliad. **PAWB** Roedd aelodau'r BGC yn cytuno â hyn fel ffordd ymlaen ac fe gytunon nhw i ddarparu cysylltiadau a enwir fel a ofynnwyd.

Rhoddodd AP ddiweddariad ar y cyfarfod trafnidiaeth yr oedd hi wedi bod ynddo gyda chydweithwyr o CSP, lle'r oedd materion o ran trafnidiaeth mewn perthynas â chyflogaeth wedi cael eu trafod. Roedd negeseuon wedi cael eu dosbarthu trwy amryw rwydweithiau i gyflogwyr a oedd yn profi anawsterau gyda recriwtio a chadw staff gan gynnig nifer o ddatrysiadau posibl. Roedd digwyddiad wrthi'n cael ei gynllunio i gyflogwyr yn y sir ar gyfer diwedd mis Hydref i ddwyn ynghyd wybodaeth am gynlluniau cyflogadwyedd a gwybodaeth berthnasol arall a hwnnw'n cael ei gefnogi gan Busnes Cymru a grwpiau cymorth busnes eraill. Dywedodd AP y byddai hi hefyd yn cynnal cyswllt â Croeso Cymru mewn perthynas â materion recriwtio yn y diwydiant lletygarwch. Byddai'r digwyddiad yn gyfle i fusnesau lleol drafod heriau sy'n debygol o godi yn 2022 ac i gael gafael ar gymorth i ymateb i'r heriau hyn, gan gynnwys meysydd lle gallent weithio i ymateb i'r heriau hyn eu hunain.

Dywedodd AP fod Bluestone wedi rhedeg ymgyrch recriwtio'n ddiweddar trwy'r Canolfannau Gwaith ac wedi llwyddo i recriwtio 20 i 30 o bobl ifanc mewn rolau. O ran y **AP** Cynllun Kickstart, roedd hi'n ymwybodol bod sgyrsiau wedi bod yn cael eu cynnal ond nid oedd penderfyniad terfynol o ran y cynllun yn gweithredu ar ôl mis Rhagfyr 2021 ar hyn o bryd. Rhoddodd AP ddiweddariad i'r partneriaid ar y cynllun gwarant person ifanc a rôl Gyrfa Cymru fel Porth hefyd. Cynigiodd ddarparu diweddariad ar y digwyddiad ym mis Hydref ac ar ymgysylltu â chyflogwyr yng nghyfarfod nesaf y BGC.

## 6. Adroddiad Blynyddol Drafft y BGC 2020-21

Eglurodd LR fod gofyniad i gynhyrchu adroddiadau'n flynyddol ar weithgarwch Byrddau Gwasanaethau Lleol dros y 12 mis blaenorol. O fewn yr adroddiad drafft a oedd wedi cael ei gylchredeg roedd ymgais wedi cael ei wneud i gofnodi rhai o'r ffyrdd yr oedd partneriaid y BGC wedi bod yn cydweithio yn ystod y pandemig ac i nodi gweithgarwch mewn perthynas â chynlluniau gweithredu diwygiedig, yr oedd rhai ohonynt yn cysylltu â thrafodaethau cynharach o'r cyfarfod ar y newid yn yr hinsawdd. Roedd adran am yr adolygiad o'r wobr Balchder yn Sir Benfro wedi cael ei chynnwys hefyd a nododd LR ei bod bellach wedi ail-lansio'n swyddogol gyda meini prawf diwygiedig yn ei chysylltu'n agosach â'r Cynllun Llesiant cyfredol gan nodi bod neges e-bost yn cynnwys dolen i'r datganiad i'r wasg wedi cael ei chylchredeg ddoe. Awgrymodd, os oedd pobl yn hapus gyda'r cynnwys, y gallai'r ddogfen gael ei chwblhau a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gofynnodd SL a ellid gwneud sylwadau cyn ei gyflwyno'n derfynol. Dywedodd LR fod yr adroddiadau i fod i gael eu cyflwyno erbyn canol mis Hydref ar yr hwyraf felly gofynnodd am unrhyw sylwadau ar yr adroddiad erbyn diwedd dydd Llun 27 Medi. **PAWB**

## 7. Unrhyw Fater Arall

Nododd SL fod y rhaglen ariannu LEADER yn dod i ben cyn bo hir a bod ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch rôl y grŵp gweithredu lleol a pha ddarpariaeth fyddai ar gyfer Sir Benfro yn y casgliad o raglenni ariannu i ddisodli'r rhaglenni Ewropeaidd.

Awgrymodd TJ y dylai'r brif ran o'r cyfarfod nesaf gael ei neilltuo i'r Asesiad Llesiant a gofynnodd fod y ddogfen yn cael ei hanfon allan mor gynnar â phosibl ar gyfer sylwadau cyn y cyfarfod. **LR ar gyfer yr agenda**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55pm.